

Atodiad A

Dyma'r disgrifiadau y bydd y marcwyr yn eu defnyddio wrth asesu'r Cyflwyniad Llafar.

Grid Asesu'r Cyflwyniad Llafar

	Cyflwyniad Llafar	100 marc
LI1.1	Dull cyflwyno	20 marc
18-20	cyflwyno'n rhagorol a diymdrech, heb betruso dim; siarad yn gwbl glir, gan gyfeirio'n gynnil at nodiadau parod, os oes angen nodiadau o gwbl; cyfeirio'n ddiymdrech ac yn gwbl briodol at y deunydd gweledol.	
14-17	cyflwyno'n rhugl er bod ychydig o oedi a phetruso; siarad yn glir gan amlaf, gan ddefnyddio nodiadau parod yn briodol; cyfeirio'n briodol at y deunydd gweledol.	
10-13	cyflwyno'n foddhaol er bod oedi a phetruso'n digwydd; yn siarad yn glir gan amlaf, er bod rhai pethau'n aneglur; tuedd i ddibynnu gormod ar nodiadau parod weithiau'n unig; cyfeirio at y deunydd gweledol weithiau'n unig.	
6-9	cyflwyno'n araf neu'n herciog; siarad heb egluro pwyntiau'n iawn; gorddibyniaeth amlwg ar sgript neu nodiadau parod; heb gyfeirio at y deunydd gweledol neu'n darllen ohono air am air.	
0-5	y cyflwyniad yn afwrdd iawn, yn aneglur, neu'n gwbl ddibynol ar nodiadau neu sgript; yn methu â chyfeirio'n briodol at y deunydd gweledol.	
LI1.3	Ystod cystrawennau a geirfa	20 marc
18-20	defnyddio ystod ragorol ac amrywiol o gystrawennau a geirfa arbenigol sy'n gwbl briodol i'r cyflwyniad.	
14-17	defnyddio ystod dda o gystrawennau gwahanol a geirfa sy'n addas i ddibenion y cyflwyniad.	
10-13	defnyddio ystod foddhaol o gystrawennau a geirfa sy'n ddigonol i'r cyflwyniad, er bod rhai bylchau amlwg.	
6-9	defnyddio ystod gyfyng o gystrawennau, a diffyg geirfa'n peri peth anhawster wrth gyflwyno.	
0-5	ystod o gystrawennau a geirfa sy'n rhy gyfyng i gyflwyno'r pwnc dan sylw'n foddhaol.	
LI1.4	Cynnwys a threfn y cyflwyniad	20 marc
18-20	y cynnwys yn rhagorol a'r ymgeisydd yn dangos dealltwriaeth drylwyr o'r pwnc; y cyflwyniad yn gwbl drefnus a'r pwyntiau'n dilyn ei gilydd yn rhesymegol; y cynnwys yn gwbl addas i'r gynulleidfa.	
14-17	y cynnwys yn dda iawn, ac yn dangos bod gafael gan yr ymgeisydd ar y pwnc; y cyflwyniad yn drefnus ar y cyfan a'r cynnwys yn addas i'r gynulleidfa ar y cyfan.	
10-13	y cynnwys yn foddhaol ac yn dangos peth dealltwriaeth o'r pwnc; y cyflwyniad yn weddol drefnus er bod rhai pwyntiau heb fod yn dilyn yn rhesymegol; y cynnwys yn rhannol addas i'r gynulleidfa.	
6-9	y cynnwys yn arwynebol ar y cyfan; y cyflwyniad yn anhrefnus neu'n ddryslyd i'r gynulleidfa.	
0-5	y cynnwys yn anfoddhaol ac yn anaddas fel cyflwyniad; heb ôl trefn na strwythur amlwg, a'r cynnwys heb ystyried natur y gynulleidfa.	

LI1.5	Ymateb i gwestiynau	20 marc
	18-20 ymateb i gwestiynau'n gwbl ddiymdrech, yn huawdl ac yn gyflawn. 14-17 ymateb i gwestiynu'n dda iawn, yn rhugl ac yn ateb yn eithaf llawn. 10-13 ymateb i gwestiynau'n foddhaol, er bod yr ymatebion yn betrus neu braidd yn fyr. 6-9 ymateb yn aneglur, yn cael peth trafferth ateb neu heb ateb y cwestiwn yn iawn. 0-5 ymateb yn aneglur, yn methu ateb cwestiynau mewn modd synhwyrol.	
LI1.2	Cywirdeb	10 marc
	9-10 siarad yn gywir iawn (ychydig iawn o wallau dibwys yn unig), a'r cywair yn gwbl briodol i'r cyflwyniad. 7-8 siarad yn gywir, gyda rhai camgymeriadau nad ydynt yn tynnu gormod o sylw, a'r cywair yn briodol i'r cyflwyniad. 5-6 siarad yn gywir ar y cyfan, er bod rhai camgymeriadau amlwg nad ydynt yn amharu ar ddealltwriaeth; y cywair yn addas gan amlaf, er bod peth defnydd o iaith sy'n rhy anffurfiol. 3-4 siarad yn eithaf gwallus a'r gwallau'n ymyrryd â dealltwriaeth y gynulleidfa; y cywair yn anaddas ar brydiau, e.e. defnydd o iaith sy'n rhy anffurfiol neu Saesneg. 0-2 y gwallau'n niferus a gwrando'n anodd i'r gynulleidfa; y cywair yn amhriodol i'r cyflwyniad.	
LI1.6	Deunydd gweledol	10 marc
	9-10 y deunydd yn gwbl briodol i'r cyflwyniad, yn ychwanegu at ddealltwriaeth y gynulleidfa ac yn gwbl gywir ei iaith. 7-8 y deunydd yn addas i'r cyflwyniad, yn hygyrch i'r gynulleidfa ac yn cynnwys dim ond rhai mân wallau. 5-6 y deunydd yn addas ar y cyfan, er bod y sleidiau'n ailadrodd yr hyn a ddywedir yn y cyflwyniad; Rhai camgymeriadau, ond heb ymyrryd â dealltwriaeth y gynulleidfa. 3-4 y deunydd braidd yn anaddas neu'n aneglur; gormod o wallau iaith i'w gweld ar y sgrin; nifer y sleidiau'n brin neu'n ormod. 0-2 y deunydd yn aneglur neu'n frith o wallau; nifer amhriodol o sleidiau.	